# Gweithdrefnau Rhoi Gwybod am Absenoldeb Salwch

**Rydych yn sâl ac nid ydych yn gallu mynd i'r gwaith**

## Diwrnod 1

Bydd angen i chi ffonio eich Rheolwr Llinell/Pennaeth yr Ysgol cyn pen awr o'ch amser dechrau arferol neu yn unol â'r gweithdrefnau adrodd lleol.

**<u>Nid yw neges destun neu e-bost yn dderbyniol.</u>**

Bydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol lle bo hynny'n bosibl:

- Natur y salwch neu anaf
- Pryd rydych yn disgwyl y byddwch yn gallu dychwelyd i'r gwaith, os ydych yn gwybod
- A yw'r absenoldeb yn sgil anaf a gafwyd wrth gyflawni eich dyletswyddau
- Unrhyw waith sydd angen ei gwblhau ar frys

**Bydd angen i chi gytuno ar y dull cyfathrebu a'i gysondeb**

A ydych chi'n ddigon iach i ddychwelyd i'r gwaith?

**YDW**

- Bydd yn ofynnol i chi gwblhau hunanardystiad

<u>Ar gyfer Gwasanaethau Glanhau ac Arlwyo</u> - cwblhewch ffurflen hunan-ardystio copi papur
<u>Pob Adran/Ysgol</u> - gweithiwr i gwblhau'r ffurflen hunan-adrystio drwy Resourcelink/MyView: <u>Resourcelink/My View</u>

**NAC YDW**

- Parhau i gadw mewn cysylltiad fel y cytunwyd â'ch Rheolwr Llinell er mwyn rhoi gwybod iddo/iddi am eich cynnydd.

# Diwrnod 8

Ydych chi wedi bod yn sâl am fwy na 7 diwrnod (gan gynnwys penwythnosau/diwrnodau nad ydych yn gweithio)?

YDW

Ewch i weld eich meddyg a chael tystysgrif feddygol

Anfonwch y dystysgrif feddygol at eich Rheolwr Llinell ar unwaith

# Diwrnod 8 +

Dylech barhau i roi gwybod i'ch Rheolwr Llinell am eich cynnydd ac anfon tystysgrif feddygol ychwanegol yn syth ar ôl i'r dystysgrif ddod i ben.

# Dychwelyd i'r gwaith

Mae eich meddyg yn dweud eich bod yn ddigon da i ddychwelyd i'r gwaith

Bydd angen i chi ffonio eich Rheolwr Llinell ar y diwrnod gwaith olaf cyn i chi ddychwelyd i'r gwaith er mwyn gallu trefnu cyfweliad 'dychwelyd i'r gwaith'.